Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gyfun Porthcawl
52 Park Avenue
Porthcawl
CF36 3ES

06/11/2024

Annwyl Michael Stephens

**Ymweliad interim:** Hydref 2024

Diolch am eich cymorth â'n hymweliad interim â'r ysgol ar 16 ac 17 Hydref 2024. Mwynhaom y cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd ym mis Chwefror 2020.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol am eich prosesau hunanwerthuso a gwella, gyda ffocws penodol ar addysgu a dysgu.
- Trafod y cynnydd mae'r ysgol wedi'i wneud yn mynd i'r afael â'r argymhelliad ynglŷn â lleihau'r amrywiad mewn addysgu, yn enwedig o ran datblygu medrau llythrennedd disgyblion.
- Siarad â disgyblion ar draws pob grŵp blwyddyn a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Siarad â grŵp o athrawon am eu gwaith.
- Cynnal cyfres o arsylwadau gwersi a gweithgareddau craffu ar waith ar y cyd ag uwch arweinwyr i gefnogi eich hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.
- Arsylwi ystod o wersi.

## Ffocws yr ymweliad

### Lleihau'r amrywiad yn ansawdd yr addysgu a'r asesu, yn enwedig o ran datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm

Mae uwch arweinwyr yn ystyried eu hymagweddau at ddatblygu addysgu ac asesu i gyd-fynd yn fuddiol â'u huchelgeisiau i ddatblygu 'Cwricwlwm i Borthcawl'. Maent wedi cydweithio â staff i ddatblygu set o egwyddorion addysgegol, sydd â'r nod o wella cysondeb a chreu diwylliant o addysgu a dysgu o ansawdd uchel.



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Mae tîm o hyrwyddwyr addysgu a dysgu a benodwyd yn ddiweddar yn gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr canol i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ymhellach. Mae'r hyrwyddwyr wedi canolbwyntio'n briodol ar gyflwyno dysgu proffesiynol yn unol ag egwyddorion addysgegol yr ysgol. Maent wedi datblygu adnoddau defnyddiol hefyd, fel y pecyn cymorth addysgu a dysgu, i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu harfer.

Mae arweinwyr yn rhoi cymorth buddiol i adrannau i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant darllen. Er enghraifft, mae staff ac arweinwyr llythrennedd disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i hyrwyddo buddion darllen er pleser.

Rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut mae staff yn sicrhau bod unrhyw strategaethau i wella addysgu ac asesu yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion?
- Sut mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn deall ymagweddau'r ysgol at wella addysgu ac asesu yn llawn, a sut i addasu'r strategaethau hyn i gefnogi addysgeg sy'n benodol i bwnc?
- Sut gall arweinwyr sicrhau bod pob adran yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'i chyfrifoldeb i ddatblygu agweddau perthnasol ar lythrennedd, a'r ffyrdd mwyaf effeithiol i wneud hynny?

**Miniogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod prosesau'n canolbwyntio'n gyson ar effaith yr addysgu a'r dysgu**

Yn ystod yr ymweliad, clywsom am y gwaith sylweddol a wnaed gan uwch arweinwyr i ddiwygio'r prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Erbyn hyn, mae ffocws cryfach yn y gwaith hwn ar ddysgu ac addysgu. Caiff athrawon eu cynorthwyo i wella'u harfer gyda chynnig dysgu proffesiynol buddiol. Mae hyn yn cynnwys deunydd cymorth defnyddiol ar gyfer datblygu addysgu. Mae 'Egwyddorion Addysgegol Porthcawl' yn darparu fframwaith buddiol ar gyfer gwerthuso ac yn helpu athrawon i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ymagwedd strategol yr ysgol at addysgu a dysgu.

Mae uwch arweinwyr yn rhoi cymorth ac arweiniad buddiol i arweinwyr canol i'w cynnwys yn llawnach mewn hunanwerthuso. Mae arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r ymagwedd ar y cyd hon at welliant ar draws yr ysgol. Maent yn gliriach am sut mae'r gwaith yn eu meysydd cyfrifoldeb yn cefnogi blaenoriaethau ysgol gyfan.

Rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut bydd yr ysgol yn sicrhau bod ei hymagweddau at hunanwerthuso yn nodi effaith yr addysgu ar ddysgu yn gywir?
- A oes digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio i adolygu a mireinio strategaethau i wella addysgu a dysgu?
- Sut bydd yr ysgol yn sicrhau bod arweinwyr canol yn meddu ar y medrau a'r gallu i werthuso addysgu a dysgu yn effeithiol?
- Sut bydd yr ysgol yn sicrhau bod pob arweinydd yn ystyried ystod lawn o wybodaeth gadarn i gefnogi gwerthuso?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Gellir gweld adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/6724080

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol